



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## TRWYDDED GYFFREDINOL AR GYFER SYMUD CEIRW

Yn unol ag Erthygl 12 Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, (fel y'i diwygiwyd) (y "Gorchymyn Rheoli Clefydau"<sup>1</sup>) mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded hon yn awdurdodi symud ceirw o fewn Cymru, yn unol â'r amodau canlynol:

### Cyffredinol

1. Cyn symud unrhyw anifeiliaid, mae'n rhaid i'r perchennog/ceidwad archwilio'r ceirw sydd i'w symud am arwyddion o unrhyw glefyd hysbysadwy, gan gynnwys Clwy'r Traed a'r Genau. Os oes unrhyw le i gredu bod clefyd hysbysadwy arnynt, rhaid rhoi gwybod i'r Swyddfa Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)<sup>2</sup> lleol yn ddi-oed. Ni chaniateir symud unrhyw anifeiliaid a gadwir ar yr eiddo y mae'r anifeiliaid yn symud ohono (safle cychwyn y daith) o dan y drwydded hon tra bo'r amheuaeth o'r clefyd yn cael ei harchwilio neu yn ôl cyngor yr APHA.

### Glanhau a diheintio

2. Mae'n rhaid glanhau a diheintio unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer symud ceirw o dan y drwydded hon yn unol â'r gofynion a nodir yng Ngorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. Ni fydd hynny'n lleihau'r angen i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol eraill mewn perthynas ag unrhyw symudiad (gweler **Atodiad E** ynghylch diogelu anifeiliaid wrth eu cludo).

### Y mathau o symud a ganiateir

<sup>1</sup> Mae'r cyfeiriadau yn y drwydded hon yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd

<sup>2</sup> Gellir cysylltu ag APHA trwy ffonio 0300 303 8268.

3. Gellir symud unrhyw garw o dan y drwydded hon, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu symud i eiddo anamaethyddol at ddibenion perfformio/arddangos.

### **Y rheol ar wahardd symud**

4. Nid oes gofyn i geirw gadw at y gwaharddiadau symud a osodir yn sgil symud anifeiliaid eraill ac nid yw ceirw yn peri gwaharddiad symud ar safle pen eu taith pan symudir hwy.

### **Tagio Anifeiliaid**

5. Mae'n rhaid i bob carw sy'n cael ei symud o dan y drwydded hon gael:
  - Nod adnabod unigryw ar ffurf tag clust wrth iddynt adael fferm cychwyn y daith.
  - Mae'n rhaid i'r tag ddangos rhif gyr y ceirw (naill ai rhif cofrestru gyr y ceirw APHA neu Cymdeithas Ffermydd a Pharciau Ceirw Prydain<sup>3</sup>), a rhif unigryw yr anifail ei hun. Mae'n rhaid i'r llythrennau UK ddod o flaen nod gyr APHA, er enghraifft "UK AB1234 000001".
  - Mae'n bosib defnyddio'r system BDFPA i symud ceirw o dan y drwydded hon os yw Swyddfa Ranbarthol berthnasol yr APHA wedi'u hysbysu o'r nod gyr hwnnw.

### **Llwytho/Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai**

5. Caniateir llwytho neu ddadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai o dan y drwydded hon cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn **Atodiad A** oni bai bod unrhyw fesurau yn y dyfodol yn gwahardd hynny.

### **Mannau aros**

6. Pan symudir ceirw a rhywogaethau eraill yn yr un cerbyd, caniateir aros ar y siwrnai o dan y drwydded hon, cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn **Atodiad B** oni bai bod unrhyw fesurau yn y dyfodol yn gwahardd hyn. Ni chaniateir trosglwyddo ceirw rhwng cerbydau (na'u dadlwytho ac eithrio mewn argyfwng) mewn manau aros ar y siwrnai, ni waeth pa un a drefnwyd ymlaen llaw i aros ai peidio ac eithrio ar siwrnai lle cafwyd cytundeb i lwytho neu ddadlwytho sawl gwaith, yn unol â'r cyfarwyddiadau a nodir yn **Atodiad A**.

### **Cymysgu Rhywogaethau**

---

<sup>3</sup> Nid yw'r PDFa bellach yn rhoi rhifau gyr ar gyfer ceirw. Dylai ceidwaid gysylltu ag APHA am rifau newydd.

7. Caiff anifeiliaid o fwy nag un rhywogaeth deithio mewn un cerbyd ar unrhyw un adeg.

### **Rhoi Gwybod am Symud Anifeiliaid**

8. Rhaid i bob symudiad gydymffurfio â'r Gorchymyn Rheoli Clefydau. Bydd cydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn Rheoli Clefydau'n amod o'r drwydded hon. Ni fydd hynny'n lleihau'r angen i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol eraill mewn perthynas ag unrhyw symudiad. Rhaid sicrhau bod y ddogfen symud AML24 yn cyd-deithio gyda'r ceirw bob tro (gweler **Atodiad C**). Gellir defnyddio'r AML 24 hefyd i fodloni gofynion hysbysu Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 2007.

### **Symud anifeiliaid i sw**

12. Nid yw symud ceirw i sw, o sw neu rhwng mwy nag un sw a drwyddedir o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 yn dod o dan y Gorchymyn Rheoli Clefydau. Nid yw symud y cyfryw anifeiliaid felly yn dod o fewn telerau'r drwydded hon.

### **Symud ceirw i eiddo anamaethyddol at ddibenion perfformio neu arddangos**

13. Mae'n bosib symud ceirw i eiddo anamaethyddol sydd heb Rif Daliad at ddibenion perfformio neu arddangos cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau yn **Atodiad D**. Nid yw symud ceirw i sioeau amaethyddol yn dod o fewn y diffiniad o symudiadau ceirw i eiddo anamaethyddol at ddibenion perfformio neu arddangos.

### **Dilysrwydd y Drwydded**

14. Ni cheir symud ceirw o dan y drwydded hon i safle nac oddi ar safle os byddai hynny'n groes i unrhyw fesurau rheoli clefydau hysbysadwy eraill sy'n weithredol yn ystod cyfnod y symud arfaethedig.
15. Ni cheir defnyddio'r drwydded hon i symud unrhyw geirw y gwaherddir eu symud o dan unrhyw hysbysiad a roddwyd boed o dan erthygl 13 y Gorchymyn Rheoli Clefydau neu ddim.
16. Heb leihau atebolrwydd unrhyw berson arall sy'n torri unrhyw un o'r amodau hyn, cyfrifoldeb perchennog/ceidwad yr anifeiliaid sy'n cael eu symud o dan y drwydded fydd sicrhau eu bod yn cael eu symud bob amser yn unol â'r amodau hyn ac y cydymffurfir â'r amodau hynny.

### **Daw'r drwydded hon i rym am 00:01 o'r gloch ar 11 Medi 2017.**

Llofnodwyd gan.....

Tony Joss

Awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Medi 2017

Mae'r drwydded hon trwy hyn yn dirymu pob trwydded flaenorol.

## Llwytho a Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai

### Cyffredinol

1. Ni cheir cyfyngiadau ar llwytho a dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai wrth gludo ceirw yn unig, ar wahân i gydymffurfio a'r darpariaethau glanhau a diheintio Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2003 (fel y'i diwygiwyd).
2. Caniateir llwytho neu ddadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai wrth gludo gwartheg, defaid, geifr a moch (gan gynnwys llwythi sy'n cynnwys ceirw), cyn belled ag y bodlonir yr amodau canlynol:
  - a. ni chyfyngir ar faint o weithiau y codir llwyth ar yr un siwrnai wrth gludo anifeiliaid i un gyrchfan, nac ar faint o weithiau y dadlwythir ar yr un siwrnai o gychwyn o un man cychwyn (a allai fod yn farchnad);
  - b. waeth sawl gwaith y codir llwyth ar yr un siwrnai, rhaid i'r holl anifeiliaid gael eu gollwng yn yr un gyrchfan, oni bai eu bod yn mynd i fwy nag un lladd-dy (ond nid i unrhyw eiddo o fath arall);
  - c. ac eithrio pan gludir anifeiliaid i ladd-dai (gweler (b) uchod), ni ellir cyfuno mewn un siwrnai y ddwy weithred sef llwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai a dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai;
  - d. dim ond ar siwrnai i ladd-dy y caniateir llwytho da byw sawl gwaith ar yr un siwrnai o farchnad o unrhyw fath neu ganolfan gasglu, a hynny ddim ond os y farchnad (marchnadoedd) a'r/neu'r ganolfan gasglu (canolfannau casglu) yw'r eiddo olaf y llwythir da byw ynddi cyn cyrraedd y lladd-dy;.
  - e. lle ymwelir â chadwyn o safleoedd gan llwytho sawl gwaith ar y siwrnai i fynd ag anifeiliaid i'w lladd, ni chaniateir y symudiad hwn os nad lladd-dy/lladd-dai yw pen taith y gadwyn o ymweliadau;
  - f. wrth llwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai, rhaid i hynny ddigwydd ar ymyl y safle gan ddefnyddio'r dulliau cymeradwy a ddisgrifir isod;
  - g. caiff anifeiliaid o fwy nag un rhywogaeth deithio mewn un cerbyd ar unrhyw un adeg.
  - h. pan fydd anifeiliaid yn teithio o dan drwydded unigol, bydd yn rhaid i bob grŵp o anifeiliaid(h.y. yr anifeiliaid o bob eiddo lle y llwythir y cerbyd) deithio o dan drwydded ar wahân.

D.S. Nid ystyrir bod aros i lwytho neu i ddadlwytho da byw yn fannau aros ar y siwrnai. Nodir darpariaethau aros ar y siwrnai ar wahân yn **Atodiad C**.

### **Llwytho sawl gwaith ar yr un Siwrnai**

3. Mae'n rhaid defnyddio un o'r dulliau canlynol

#### **(a) Ramp ar ben ramp**

Dylid llwytho'r anifeiliaid sydd i'w casglu ar gerbyd yr eiddo. Bydd y cerbyd wedi'i lanhau a'i ddiheintio'n drwyadl yn unol â Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2003 (fel y'i diwygiwyd). Bydd yn rhaid trosglwyddo'r anifeiliaid i'r cerbyd casglu mewn man sydd cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus. Bydd y cerbyd casglu a ddefnyddir i gludo'r anifeiliaid yn cyrraedd yr eiddo ac yn parcio ar dir ag iddo wyneb galed. Gostyngir ramp y cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid a bydd cerbyd yr eiddo yn bacio ac yn gostwng ei ramp ar ben ramp y cerbyd casglu. Cyn dechrau trosglwyddo anifeiliaid, bydd yn rhaid codi clwydi/rhwystrau/gatiau addas i atal yr anifeiliaid rhag dianc.

#### **(b) Defnyddio llociau**

Bydd angen codi dau loc, â giât yn arwain o'r naill i'r llall. Mae'n rhaid i Loc 1 fod yn ddigon mawr i ddal y cerbyd cyfan sy'n casglu'r anifeiliaid. Bydd angen i'r lloc hwn fod ag wynebgaled e.e. concriid. . Nid oes yn rhaid bod gan Loc 2, a all fod yn adeilad neu ran o adeilad, wyneb galed. Caiff ei ddefnyddio i ddal yr anifeiliaid cyn eu llwytho. Rhaid i'r llociau fod cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Rhaid gyrru'r cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid i mewn i Loc 1. Rhaid cadw'r giât rhwng y ddau loc ar gau nes bod y cerbyd cyfan sy'n casglu'r anifeiliaid fod yn Lloc 1. Unwaith y bydd y cerbyd casglu y tu mewn i Loc 1, gellir agor y giât sy'n cysylltu'r ddau loc a llwytho'r anifeiliaid. Ar ôl defnyddio'r wyneb galed a'r lloc, rhaid eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl, gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir.

D.S. Ni fydd angen i Loc 1 amgáu'r cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid os oes yna gyfleusterau llwytho diogel arbenigol ar ffin derfyn yr eiddo lle bydd drysau ochr a/neu ramp y cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid yn gallu bod gyfwyneb â gatiau'r ardal lwytho i rwystro anifeiliaid rhag dianc.

### **Dadlwytho sawl gwaith ar yr un Siwrnai**

4. Mae'n rhaid defnyddio un o'r dulliau canlynol:

#### **a) Ramp ar ben Ramp**

Bydd yn rhaid trosglwyddo'r anifeiliaid i'r cerbyd casglu mewn man sydd cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Bydd y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn cyrraedd yr eiddo ac yn parcio ar dir ag iddo wyneb galed. Gostyngir ramp y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid a bydd cerbyd yr eiddo yn bacio ac yn gostwng ei ramp ar ben ramp y cerbyd sy'n dadlwytho. Cyn dechrau trosglwyddo anifeiliaid, bydd yn rhaid codi clwydi/rhwysrau/gatiau addas i atal yr anifeiliaid rhag dianc.

#### **(b) Defnyddio llociau**

Bydd angen codi dau loc, â giât yn arwain o'r naill i'r llall. Mae'n rhaid i Loc 1 fod yn ddigon mawr i ddal y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid. Bydd angen i'r lloc hwn fod ag wynebgaled e.e. concriid. . Nid oes yn rhaid bod gan Loc 2, a all fod yn adeilad neu ran o adeilad, wyneb galed. Caiff ei ddefnyddio i ddal yr anifeiliaid sy'n cael eu dadlwytho. Rhaid i'r llociau fod cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Rhaid gyrru'r cerbyd cyfan sy'n dadlwytho'r anifeiliaid i mewn i Loc 1. Rhaid cadw'r giât rhwng y ddau loc ar gau nes bod y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn Lloc 1 yn ei gyfanrwydd. Unwaith y bydd y cerbyd y tu mewn i Loc 1, gellir agor y giât sy'n cysylltu'r ddau loc a dadlwytho'r anifeiliaid. Ar ôl defnyddio'r wyneb galed a'r lloc, rhaid eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl, gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir

D.S. Ni fydd angen i Loc 1 amgáu'r cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid os oes yna gyfleusterau llwytho diogel arbenigol ar ffin derfyn yr eiddo lle bydd drysau ochr a/neu ramp y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn gallu bod gyfwyneb â gatiau'r ardal dadlwytho i rwystro anifeiliaid rhag dianc.

#### **Llwytho/Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai mewn Marchnadoedd a Chanolfannau Casglu**

5. Gallir llwytho/dadlwytho anifeiliaid mewn unrhyw fan addas ar dir y farchnad neu'r ganolfan casglu a gymeradwyir o dan y Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2010. Unwaith y bydd yr anifeiliaid wedi'u dadlwytho, bydd yn rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd a ddefnyddir i gludo'r anifeiliaid yn drwyadl gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir a hynny 'n unol â'r Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) (Diwygio) 2003 (fel y'i diwygiwyd).

**Amodau Aros ar y Siwrnai**

Caniateir aros ar y siwrnai o dan yr amodau canlynol:

(a) o aros, rhaid gwneud hynny yn un o'r canlynol:-

- i) Man Gwasanaethau ar y Draffordd
- ii) Cilfan swyddogol (ar gefnffordd/ffordd fawr)
- iii) Maes Parcio Loriau neu fan tebyg;

(b) Mae'n rhaid parcio'r cerbyd ar wyneb caled.

(c) Mae'n rhaid parcio'r cerbyd o leiaf 100 medr oddi wrth unrhyw anifeiliaid (yn cynnwys anifeiliaid ar gerbyd cludo da byw sy'n defnyddio'r un cyfleuster);

(d) Mae'n rhaid cario pecyn symudol glanhau a diheintio yn y cerbyd (h.y. bwced, dŵr, diheintydd cymeradwy a brwsh) neu, os na fydd y cyfryw becyn yn y cerbyd, bydd yn rhaid bod gan y fan lle y bydd y cerbyd yn aros gyfleusterau glanhau a diheintio

(e) Mae'n rhaid glanhau unrhyw sarn (deunydd gwely), dom, wrin ac ati sy'n gollwng o'r cerbyd a rhaid diheintio'r lle cyn i'r cerbyd adael; rhaid rhoi unrhyw ddeunydd gwastraff solid mewn bagiau mewn rhan arall o'r cerbyd lle na all anifeiliaid fynd iddi a mynd a'r bagiau i'r gyrchfan i'w gwaredu;

(f) Mae'n rhaid i'r gyrrwr gadw cofnod o'r fan(mannau) lle yr arhosodd a'r amser(au) a pheidio a'i daflu am 6 mis o leiaf.

(g) Ni chaniateir trosglwyddo anifeiliaid o un cerbyd i'r llall (na dadlwytho anifeiliaid ac eithrio mewn argyfwng) mewn mannau aros ar y ffordd, ni waeth pa un a drefnwyd hynny ymlaen llaw neu beidio, ac eithrio wrth lwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai. Wrth lwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai, rhaid cadw at amodau'r drwydded hon.



## Rhoi Gwybod am Symudiadau o dan y Drwydded Gyffredinol

### Llenwi'r Ddogfen Symud AML 24

1. Rhaid bod gennych ddogfen symud AML24 ('Rhoi Gwybod am Symudiadau Ceirw o dan y Drwydded Gyffredinol ar gyfer Symud Ceirw o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)') i gyd-deithio â'r ceirw bob tro y byddwch yn eu symud.
2. Mae dogfennau symud AML24 ac AML24A (dalenni parhau) ar gael oddi wrth EIDCymru:

EIDCymru  
Ty Merlin  
Parc Merlin  
Aberystwyth  
SY23 3FF

Ffôn: 01970 636959

E-bost: [contact@eidcymru.org](mailto:contact@eidcymru.org)

3. Rhaid llenwi pob maes yn yr AML24.
  - Y ceidwad yn naliad cychwyn y daith ddylai lenwi Adrannau A ac C. Gallai hynny gynnwys canolfannau ffrwythloni artiffisial, canolfannau casglu, canolfannau crynhoi, marchnadoedd, sioeau a ffermydd.
  - Y cludwr (neu'r ceidwad os mai hwnnw sy'n symud yr anifeiliaid) ddylai lenwi Adran B. Hwnnw fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl fanylion yn yr adran hon yn gywir cyn ei harwyddo.
  - Y ceidwad yn naliad pen y daith ddylai lenwi Adran D. Gallai hynny gynnwys canolfannau ffrwythloni artiffisial, canolfannau casglu, canolfannau crynhoi, marchnadoedd, sioeau a ffermydd.

**Pwysig: Rhaid** cofnodi rhif CPH yr eiddo y mae'r ceirw'n teithio ohono a'r eiddo y maen nhw'n teithio iddo. Dylai'r cyfeiriad adlewyrchu lle mae'r ceirw'n symud iddo ac yn symud ohono.

4. Rhaid cofnodi pob cam o symudiad sydd â mwy nag un rhan iddi ar AML24 wahanol. Os oes grŵp mawr o anifeiliaid yn cael eu symud mewn mwy nag un siwrnai, yna bydd angen AML24 wahanol ar gyfer pob siwrnai.

5. Anfonwch **Gopi Gwyn** yr AML24 at EIDCymru o fewn tri diwrnod ar ôl y symudiad. Dylai'r ceidwad yn naliad pen y daith gadw'r **Copi Pinc** Dylai'r cludwr gadw'r **Copi Glas**. Dylai ceidwad dechrau'r daith gadw'r **Copi Melyn**.
6. Os ydy'r anifeiliaid yn cael eu symud i Loegr, dylech anfon y Copi Gwyn at yr Animal Reporting and Movement Service (ARAMS).<sup>4</sup>
7. Os ydy'r anifeiliaid yn cael eu symud i'r Alban, dylech anfon y Copi Gwyn at y Scottish Animal Movement (SAM)<sup>5</sup>.

### **Symudiadau i/o Sioeau neu at Ddibenion Perfformio neu Arddangos**

8. Ar gyfer symudiadau lle fydd ceirw'n dychwelyd i fan cychwyn y daith h.y. eu symud i ac o sioe, bydd angen AML24 arnynt i fynd gyda nhw i'r sioe ac AML24 arall i fynd adre. Mae'r amodau ar gyfer symud ceirw i safle anamaethyddol at ddibenion perfformio neu arddangos i'w gweld yn **Atodiad D**.

### **Symudiadau o Gymru i Ogledd Iwerddon**

9. Bydd angen AML24 ac unrhyw dystysgrif iechyd y gallai Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon ofyn amdani ar gyfer symud ceirw i Ogledd Iwerddon. Rhaid i geidwad daliad cychwyn y daith lenwi'r AML24 a fydd yn ymdrin â'r symudiad o ddaliad cychwyn y daith i'r porthladd a chan roi manylion daliad pen y daith yn adran C.

### **Symudiadau i Gymru o'r Alban a Gogledd Iwerddon**

10. Ni fydd angen dogfen symud ar geirw o'r Alban a Gogledd Iwerddon. Rhaid i geidwaid daliad pen y daith lenwi AML24 a'i hanfon at EIDCymru o fewn tri diwrnod ar ôl y symudiad.

### **Allforion i Drydydd Gwledydd neu Wledydd yr UE**

11. Bydd angen AML24 ar geirw y bwriedir eu hallforio i drydedd wlad neu eu symud i wlad arall yn yr UE wrth iddynt gael eu cludo i'r ganolfan grynhoi neu borthladd (neu'r ddau).

### **Mewnforion o Drydydd Gwledydd neu Wledydd yr UE**

12. Ni fydd angen AML24 i gyd-deithio â cheirw sy'n cael eu mewnforio o drydedd wlad neu eu symud o wlad arall yn yr UE. Ond fe fydd angen

---

<sup>4</sup> Cyfeiriad ARAMS: ARAMS, SouthWestern, PO Box 6299, Milton Keynes, MK10 1ZQ.

<sup>5</sup> Cyfeiriad SAM: Scottish Animal Movement, 161 Brooms Road, Dumfries DG1 3ES

Tystysgrif Iechyd Allforio arnynt. Rhaid i geidwad daliad pen y daith lenwi AML24 a'i hanfon at EIDCymru o fewn tri diwrnod calendr ar ôl y symudiad neu anfon copi o'r dystysgrif iechyd allforio atynt.

### **Symud ceirw i eiddo nad yw'n eiddo amaethyddol er mwyn perfformio neu arddangos**

1. Dylai pob carw sy'n cael ei symud gyd-deithio â dogfen symud AML 24.
2. Mae'n rhaid i bob symudiad gael ei gofnodi yn llyfr symudiadau y safle y daeth yr anifail ohono.
3. Mae'n rhaid i geirw sy'n cael eu symud er mwyn perfformio neu arddangos:
  - ddod o un safle, a gallai olygu unrhyw eiddo mewn Awdurdod Meddiannaeth Unigol a
  - theithio ar wahân i unrhyw anifail arall.
4. Ni ddylai'r ceirw ddod i unrhyw gysylltiad ag unrhyw anifail arall sy'n gallu dal Clwy'r Traed a'r Genau wrth eu symud neu tra eu bod ar safle pen y daith.
5. Os bydd y ceirw yn parhau ar safle pen y daith am fwy na 12 awr, rhaid eu cadw mewn lle addas dan do, naill ai yn eu lori eu hunain neu mewn cyfleusterau priodol o dan reolaeth y person sy'n gofalu am y ceirw ac mae'n rhaid nodi sut y cânt eu lletya yn y cofnod symud.
6. Mae'n rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gludo'r ceirw symud unrhyw wastraff anifeiliaid o'r lleoliad a'i gludo yn ôl i'r safle y daethant ohono.

**Lles Ceirw wrth eu Cludo**

Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 yn gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 ynghylch diogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithgarwch cysylltiedig.

1. Yn ôl y Rheoliad, mae gofyn i'r sawl sy'n cludo anifeiliaid ar daith sicrhau:
  - a. Na fydd unrhyw un yn cludo anifeiliaid neu'n peri eu bod yn cael eu cludo, mewn ffordd a fydd yn debygol o'u hanafu neu wneud iddynt ddiodef.
  - b. Bod amser y teithiau mor fach â phosib.
  - c. Bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio.
  - d. Bod y rheini sy'n trin anifeiliaid wedi'u hyfforddi ac yn gymwys.
  - e. Bod y cerbyd a'i gyfleusterau llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi anaf a dioddefaint ac i ofalu bod yr anifeiliaid yn ddiogel.
  - f. Bod yr anifeiliaid yn cael dŵr, porthiant a chyfle i orffwys yn ôl yr angen a bod digon o le ac uchder yn y cerbyd cludo iddynt.
2. Cludo ceirw beichiog a cheirw sydd newydd roi genedigaeth:
  - a. Nid yw ceirw yn y 10% olaf o'u bechiogrwydd neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn yr wythnos ddiwethaf yn ffit i'w cludo ac nid ydynt yn ffit chwaith ar gyfer marchnadoedd.